**Julie James AS/MS**
**Y Gweinidog Newid Hinsawdd**
**Minister for Climate Change**

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Eich cyf/Your ref
Ein cyf/Our ref

Russell George AS

25 Ebrill 2022

Annwyl Russell

Diolch am eich llythyr dyddiedig 31 Mawrth am Grantiau Cyfleusterau i'r Anabl, yn dilyn Sesiwn craffu gyda'r Gweinidog a'r Dirprwy Weinidog Gwasanaethau Cymdeithasol ar 24 Mawrth.

Cyfrifoldeb statudol awdurdodau lleol yw gweinyddu Grantiau Cyfleusterau i'r Anabl. Mae Llywodraeth Cymru yn casglu data am addasiadau tai a gwblhawyd ledled Cymru, gan gynnwys yr amseroedd aros cyffredinol ar gyfer addasiadau bach, canolig a mawr. Fodd bynnag, nid yw'r ffurflenni monitro yn casglu gwybodaeth yn y manylder yr ydych yn gofyn amdano. O gofio'r gwahanol systemau rheoli a dulliau a ddefnyddir gan awdurdodau lleol, mae'n annhebygol y gellid casglu data y gellir ei gymharu'n gadarn rhwng pob awdurdod.

Er mwyn cael y wybodaeth hon, byddai angen i chi naill ai gysylltu â Chymdeithas Llywodraeth Leol Cymru (CLlLC) neu wneud cais gan awdurdodau lleol unigol.

Er gwybodaeth, amgaeaf gopi diweddaraf o'r *Dadansoddiad data lefel uchel ar addasiadau tai 2019-20* a gyhoeddwyd ar wefan Llywodraeth Cymru ym mis Gorffennaf 2021. Mae'r adroddiad hwn yn crynhoi canlyniadau dadansoddiad o'r data ar gyfer addasiadau a gwblhawyd o fewn y cyfnod rhwng 1 Ebrill 2019 a 31 Mawrth 2020. Bydd y data ar gyfer 2020-21, a effeithiwyd yn sylweddol gan effaith Covid wrth gwrs, yn cael ei gyhoeddi ym mis Mehefin.
Addasiadau Tai: dadansoddiad 2019 i Mawrth 2020 | LLYW.CYMRU

Yn gywir

Julie James

**Julie James AS/MS**
Y Gweinidog Newid Hinsawdd
Minister for Climate Change

Bae Caerdydd • Cardiff Bay
Caerdydd • Cardiff
CF99 1SN

Canolfan Cyswllt Cyntaf / First Point of Contact Centre:
0300 0604400
Gohebiaeth.Julie.James@llyw.cymru
Correspondence.Julie.James@gov.Wales

Rydym yn croesawu derbyn gohebiaeth yn Gymraeg. Byddwn yn ateb gohebiaeth a dderbynnir yn Gymraeg yn Gymraeg ac ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

We welcome receiving correspondence in Welsh. Any correspondence received in Welsh will be answered in Welsh and corresponding in Welsh will not lead to a delay in responding.